

Trympiau Ynni

Faint o bobl?: Gellir chwarae Trympiau Ynni gyda 2-6 o bobl – 8 o bosib ond efallai y byddai hyn yn ormod! Mae 30 o gardiau yn y pac hwn ond gallech dynnu sawl un i gadw nifer y cardiau'n gyfartal rhwng pawb. Gweler *Awgrymiadau am ba gardiau i'w tynnu.*

Nod: Nod cyntaf y gêm yw dysgu mwy am 30 o dechnolegau ac ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag ynni. Yr ail nod yw ennill yr holl gardiau! Yr atebion sy'n sgorio isaf sy'n ennill; e.e. lleia i gyd yw'r sgileffeithiau amgylcheddol, rhata i gyd yw cost y cyflenwad neu fwya i gyd yw'r adnoddau sydd ar gael, gorau oll.

Categoriâu: Mae Trympiau Ynni'n debyg i gemau trympiau eraill, ond efallai y bydd yn rhaid i chi ymglyfarwyddo â'r wyth categori a ddefnyddir i ddiffinio pob technoleg neu arfer.

| | |
|--|---|
| Newid yn yr hinsawdd CO₂e y kW awr | Yr allyriadau tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'r dechnoleg ynni hon. Mae'r rhain yn cyfrannu i newid yn yr hinsawdd. Wedi'u mesur mewn carbon deuocsid (neu nwy tŷ gwydr sy'n cyfateb) y kW awr |
| Effaith ar fyd natur | Sut mae'r dechnoleg hon yn effeithio ar ecosystemau naturiol |
| Risgiau | Rhai o'r risgiau posibl wrth ddefnyddio'r ynni hwn |
| Effaith weledol | Sut mae'r dechnoleg hon yn newid y dirwedd weledol o'n cwmpas |
| Cost ar hyn o bryd – ceiniogau'r kW awr | Cost defnyddio cyflenwad ynni o'r fath ar hyn o bryd |
| Cost ymhen 20 mlynedd – ceiniogau'r kW awr | Y gost a ragwelir ymhen 20 mlynedd oherwydd ffactorau fel cyflenwadau llai, gwell technolegau |
| Adnoddau'r DU | Yr adnoddau yn y DU a pha mor dda gellir eu defnyddio. |
| Dibynadwyedd/ hyblygrwydd | Pa mor dda gellir dibynnu ar y dechnoleg i gyflawni ei rôl yn gyson fel darparu gwres neu drydan a pha mor dda gall ymaddasu i anghenion sy'n newid. |

| | |
|---------------|--|
| Coch Tywyll | Hynod uchel/ofnadwy |
| Coch | Uchel iawn/sylweddol iawn/ gwael iawn |
| Oren | Uchel/Sylweddol/Gwael |
| Melyn | Cymedrol |
| Gwyrdd golau | Isel/Bach/Da |
| Canol gwyrdd | Isel iawn/Ychydig iawn/Da iawn |
| Gwyrdd Tywyll | Bach iawn/ardderchog |

Mae'r colofnau lliw yn cynnwys sgôr i'r categori hwnnw. Trefnir y sgorau mewn sbectrwm sy'n symud o goch i wyrdd. Coch tywyll yw'r sgôr waethaf a gwyrdd tywyll yw'r orau.

Yn gyffredinol, mae pob categori'n asesu effaith y dechnoleg ar yr amgylchedd a chreaduriaid byw, boed yr hinsawdd, byd natur neu fodau dynol. Isa i gyd yw'r sgileffeithiau amgylcheddol, rhata i gyd yw cost y cyflenwad neu fwy i gyd yw'r adnoddau sydd ar gael, gorau oll.

Sut rydyn ni'n chwarae?: Mae'r cardiau'n cael eu cymysgu a'u delio i'r chwaraewyr yn gyfartal, eu hwynebau am lawr. I wneud nifer y cardiau'n gyfartal, gallai rhai cardiau gael eu tynnu a'u hystyried yn nes ymlaen. Gweler *Awgrymiadau am ba gardiau i'w tynnu*.

Mae pob chwaraewr yn tynnu'r cardiau cyntaf o'r staciau o'u blaenau. Mae'r chwaraewr i'r chwith o'r deliwr yn dechrau drwy ddarllen teitl y cerdyn a'r brawddegau odano cyn dewis categori a'r wybodaeth gysylltiedig o'r cerdyn i'w darllen. Mae gweddill y chwaraewyr yn darllen eu sgorau a'r wybodaeth o'r categori hwnnw ac yn eu cymharu. Y cerdyn sydd â'r effaith orau sy'n ennill (yr agosaf at wyrdd tywyll) ac mae'r person sy'n dal y cerdyn hwnnw'n cael cadw'r holl gardiau sydd wedi'u chwarae yn y rownd honno drwy eu rhoi yng ngwaelod eu stac. Mae'r broses yma'n cael ei gwneud sawl gwaith nes bydd yr holl gardiau gan un chwaraewr. Mae dau liw i rai o'r categorïau. Os nad oes enillydd clir, gall chwaraewr ddefnyddio'r dewis mwyaf amgylcheddol os yw'n gallu ei egluro i'r grŵp.

Os bydd un rownd yn gorffen yn gyfartal, rhoddir y cardiau dan sylw yng nghanol y bwrdd a'u hwynebau i fyny. Wedyn, mae'r chwaraewyr yn codi cardiau newydd o'u staciau gan gymharu'r un categori. Dylai hyn arwain at enillydd i'r rownd honno, os nac ydy, ewch drwy'r broses yma eto.

Mae hefyd yn bosibl chwarae'r gêm gyda chwaraewyr yn dal eu cardiau ac yn dewis pa gerdyn i ddechrau neu ymateb ag o mewn categori penodol. Gall hyn fod o fantais yn addysgol oherwydd bydd mwy o'r wybodaeth sydd ar y cerdyn yn cael ei darllen.

Awgrymiadau am ba gardiau i'w tynnu (i wneud nifer y cardiau'n gyfartal rhwng pawb)

Crynhoi pŵer solar gan mai dyma'r unig un nad yw'n addas i'r DU oni bai iddo gael ei fewnforio drwy "Archgrid". Naill ai *Morlyn Llanw* neu *Forglawdd Llanw* gan mai technolegau gweddol debyg i'w gilydd ydyn nhw.

Effeithlonrwydd ynni a ffyrdd carbon isel o fyw fel ffyrdd o ddefnyddio ynni. Gall y rhain wrth gwrs gael effaith sylweddol ar anghenion ynni cyffredinol. Mae *Cnydau ar gyfer Tanwyddau Hylifol (ail genhedlaeth)* a *Cnydau ar gyfer Tanwyddau Hylifol (cenhedlaeth cyntaf)* felly gellid tynnu'r naill neu'r llall.